



Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:

Rhifyn 1

Darn	Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:
Stiw a Sawna Batio dros Gymru Mop, pêl a gôl	Daearyddiaeth Lleoli lleoedd ac amgylcheddau gan ddefnyddio globau, atlasau, mapiau a chynlluniau
Hobiau	Mathemateg <ul style="list-style-type: none">Dehongli'r wybodaeth a roddir mewn graffiau, diagramau ac ystadegau, yn enwedig data o fywyd go-iawn
Clwb ... Clybiau	Mathemateg <ul style="list-style-type: none">Cyflwyno gwaith yn glir, gan ddefnyddio diagramau, graffiau wedi'u labelu a symbolau

Yn ogystal â'r uchod, bydd cyfleoedd drwyddi draw i gwrdd â gofynion y Fframwaith Sgiliau, e.e.

Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**:

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill
- dadansoddi, strwythuro a threfnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- disgrifio cysylltiadau a'r hyn sy'n debyg mewn ieithoedd
- adnabod patrymau.

Datblygu cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau

llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach:

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus
- Bydd eu sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg yn cefnogi ac yn hybu datblygiad sgiliau mewn ieithoedd eraill.

Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod,**

datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

- datblygu eu sgiliau TGCh trwy gyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio**

gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys holiaduron
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008, tud. 7

